Ysgol Glan Morfa
Ffordd Lewis, Sblot, Caerdydd, CF24 5EB/Lewis Road, Splott, Cardiff, CF24 5EB
Ffôn/Tel: 02920 483663
Pennaeth/Headteacher: Meilir Tomos CPCP/NPQH
Dirprwy/Deputy: Miss Bethan Jenkins
www.ysgolglanmorfa.co.uk

Hunan-werthuso'r ysgol: crynodeb

Cryfderau

1. Darpariaeth lles gref ac effeithiol

- Mae'r ysgol wedi datblygu dull ysgol gyfan cryf ar gyfer lles.
- Mae defnydd o Thrive ac ymyriadau targedig wedi cynyddu capasiti'r ysgol i gefnogi dysgwyr.
- Mae'r Tîm Lles a'r Mêts Morfa yn cryfhau llais a chefnogaeth disgyblion.
- Mae prosesau adnabod anghenion a darparu cymorth yn gynyddol gadarn.

2. Diwylliant cryf o ddatblygiad proffesiynol

- Mae staff yn cydweithio'n effeithiol drwy driawdau, arsylwadau a rhannu arfer dda.
- Mae ffocws clir ar gwestiynu, annibyniaeth a meddylfryd twf.
- Mae cysondeb addysgeg wedi gwella ar draws yr ysgol.

3. Cynnydd yn natblygiad y Gymraeg a llafaredd

- Mae mwy o gyfleoedd strwythuredig i ddisgyblion ddefnyddio'r Gymraeg.
- Mae patrymau iaith a geirfa wedi'u hymgorffori'n fwy cyson mewn gwersi.
- Mae hyder llafar llawer o ddisgyblion wedi cynyddu.

4. Cyfleoedd gwell i gymhwyso sgiliau

- Mae mwy o gyfleoedd ar draws Meysydd Morfa i ddefnyddio llythrennedd a rhifedd mewn cyd-destunau ystyrlon.
- Mae dulliau "gwaith go iawn" yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar ymgysylltiad disgyblion.

Ysgol Glan Morfa
Ffordd Lewis, Sblot, Caerdydd, CF24 5EB/Lewis Road, Splott, Cardiff, CF24 5EB
Ffôn/Tel: 02920 483663
Pennaeth/Headteacher: Meilir Tomos CPCP/NPQH
Dirprwy/Deputy: Miss Bethan Jenkins
www.ysgolglanmorfa.co.uk

Meysydd i'w datblygu:

1. Mesur effaith yn fwy manwl

- Mae angen defnyddio data yn fwy systematig i ddangos effaith ymyriadau a blaenoriaethau.
- Cryfhau'r defnydd o ddata asesiadau, Thrive, Rise a phresenoldeb er mwyn dangos cynnydd mesuradwy.

2. Cysondeb ar draws yr ysgol

- Er bod llawer o arfer dda yn bodoli, mae angen sicrhau bod yr arferion gorau yn cael eu gweithredu'n gyson ym mhob dosbarth.
- Datblygu mwy o gysondeb yn y defnydd o strategaethau llafaredd, rhifedd a dysgu annibynnol.

3. Datblygu rhesymu a meddwl dyfnach mewn mathemateg

- Cynyddu'r cyfleoedd i ddisgyblion egluro eu meddyliau a chyfiawnhau eu hatebion.
- Sicrhau lefel gyson o her mathemategol ar draws yr ysgol.

4. Cryfhau defnydd trawsgwricwlaidd o sgiliau

- Datblygu mwy o gyfleoedd i gymhwyso llythrennedd a rhifedd yn annibynnol ar draws pob maes dysgu.
- Sicrhau bod dilyniant sgiliau yn amlwg ac yn gyson ym mhob dosbarth.

Casgliad

- Mae'r ysgol mewn sefyllfa gref gyda chynnydd arbennig o dda mewn **lles**, **addysgeg** a **datblygu'r Gymraeg**. Y cam nesaf yw symud o weithredu strategaethau llwyddiannus i ddangos eu heffaith yn fwy mesuradwy a sicrhau cysondeb llawn ar draws yr ysgol. Bydd hyn yn helpu i gryfhau'r dystiolaeth ar gyfer llywodraethwyr, yr awdurdod lleol ac unrhyw weithgarwch arolygu yn y dyfodol.

GWERTHUSIAD CYNLLUN DATBLYGU YSGOL 2025-26	
Blaenoriaeth	**Gwerthuso cynnydd**
1. Sut allwn ni ddatblygu ymhellach i roi cyfle i ddisgyblion gymhwyso eu medrau Cymraeg a'i sgiliau llythrennedd ar draws y cwricwlwm?	**Gwerthusiad Cynnydd: Cynnydd Cadarn** Mae'r ysgol wedi rhoi ffocws clir ar ddatblygu llafaredd, darllen ac ysgrifennu drwy'r cwricwlwm. Mae disgwyliadau cyson ar gyfer llafaredd wedi'u cyflwyno ar draws yr ysgol, gyda mwy o gyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio'r Gymraeg mewn ystod eang o gyd-destunau. Mae sesiynau drilio, asesiadau llafar tymhorol a gwaith ar ddatblygu geirfa pwnc-benodol wedi cyfrannu at well hyder disgyblion wrth ddefnyddio'r Gymraeg. Mae'r gwaith o gysoni'r carwsel darllen a chryfhau partneriaethau gyda rhieni wedi gwella cyfleoedd darllen rheolaidd. Yn ogystal, mae cyfleoedd cynyddol i gymhwyso sgiliau llythrennedd ar draws Meysydd Morfa yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar ansawdd gwaith ysgrifenedig disgyblion.

	Tystiolaeth o Effaith • Mwy o ddefnydd naturiol o'r Gymraeg mewn gwersi a thu allan i'r dosbarth. • Cynnydd yn hyder llafar disgyblion yn ystod teithiau dysgu a gweithgareddau llais y disgybl. • Tystiolaeth gynyddol o gymhwyso sgiliau llythrennedd mewn llyfrau Meysydd Morfa. • Cysondeb gwell yn y ddarpariaeth darllen ar draws yr ysgol. **Cam Nesaf** Mireinio'r defnydd o ddata asesiadau llafar a darllen i fesur cynnydd yn fwy manwl a sicrhau cysondeb pellach wrth gymhwyso sgiliau llythrennedd ar draws pob MDaPh.
2. Sut allwn ni greu gweithgareddau mwy heriol sy'n galluogi disgyblion i gymhwyso eu medrau rhif yn effeithiol ar draws y cwricwlwm, gan sicrhau eu bod yn heriol ac addas i'w hanghenion datblygiadol?	**Gwerthusiad Cynnydd: Cynnydd Boddhaol i Gadarn** Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd wrth gryfhau'r ddarpariaeth rhifedd drwy ddatblygu gweithgareddau "gwaith go iawn" a chyfleoedd trawsgwricwlaidd i gymhwyso sgiliau mathemategol. Mae ffocws clir wedi bod ar ddatblygu tasgau agored a phroblemau sy'n annog rhesymu a meddwl annibynnol. Mae gwaith sylweddol wedi digwydd i ddatblygu dulliau Rhifau Rhagorol a sesiynau CLIC, gyda systemau tracio mwy cyson yn cefnogi adnabod anghenion a chynnydd disgyblion. Mae'r awdit o adnoddau mathemateg ac hyfforddiant staff hefyd wedi gwella ymwybyddiaeth staff o'r adnoddau sydd ar gael a'r dilyniant sgiliau. **Tystiolaeth o Effaith** • Mwy o weithgareddau mathemategol mewn cyd-destunau ystyrlon. • Gwell dealltwriaeth staff o ddatblygiad sgiliau rhifedd. • Defnydd cynyddol o ddulliau Rhifau Rhagorol mewn gwersi dyddiol. • Tystiolaeth mewn llyfrau sy'n dangos mwy o gyfleoedd i gymhwyso sgiliau mathemategol. **Cam Nesaf** Sicrhau bod lefel yr her yn gyson ar draws pob dosbarth ac ymestyn cyfleoedd i ddisgyblion egluro eu rhesymu mathemategol yn annibynnol.
3. Sut allwn ni ddatblygu a chysoni addysgeg effeithiol ar draws yr ysgolion amrywiol, gan rannu arfer da ac ymateb i anghenion penodol pob cyd-	**Gwerthusiad Cynnydd: Cynnydd Da Iawn** Mae'r ysgol wedi sefydlu diwylliant cryf o ddysgu proffesiynol a chydweithio. Mae'r defnydd o driawdau, rhannu arfer dda, datblygu medrau cwestiynu a

destun? (Cwestiynu, dysgu annibynnol, triawdau)	gwaith ar annibyniaeth disgyblion wedi cyfrannu'n sylweddol at gryfhau addysgeg ar draws yr ysgol. Mae ffocws ar feddylfryd twf, dysgu annibynnol a datblygu staff drwy hyfforddiant arbenigol wedi arwain at well dealltwriaeth ymhlith staff o sut i gefnogi dysgwyr i fod yn fwy gwydn ac annibynnol. Mae'r gwaith yn y blynyddoedd cynnar, gan gynnwys "Planning in the Moment", yn dangos potensial cryf i gryfhau'r ddarpariaeth ymhellach. **Tystiolaeth o Effaith** • Cysondeb cynyddol mewn arferion addysgu. • Staff yn rhannu arferion effeithiol yn fwy rheolaidd. • Disgyblion yn cymryd mwy o gyfrifoldeb am eu dysgu. • Defnydd mwy effeithiol o gwestiynu i ymestyn meddwl disgyblion. • Datblygiad clir yn y ddarpariaeth annibynnol yn y dosbarthiadau.
4. Sut ydym ni'n sicrhau bod pob disgybl sydd angen cefnogaeth lles yn cael mynediad amserol ac effeithiol at ymyrraethau priodol, megis Thrive, ac sut ydym ni'n monitro effaith y ddarpariaeth honno dros amser?	**Gwerthusiad Cynnydd: Cynnydd Da Iawn** Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd sylweddol wrth gryfhau ei darpariaeth lles. Mae'r defnydd o Thrive wedi dod yn fwy strwythuredig ac mae capasiti'r ysgol i ddarparu cymorth emosiynol wedi cynyddu drwy hyfforddiant staff ychwanegol a datblygu prosesau asesu a thracio mwy cadarn. Mae sefydlu Tîm Lles ysgol gyfan, ailgyflwyno Mêts Morfa a datblygu strategaethau lles staff wedi cryfhau'r dull ysgol gyfan tuag at les. Mae mwy o ffocws ar fonitro effaith ymyriadau ac adnabod anghenion yn gynnar yn sicrhau bod cefnogaeth fwy amserol ar gael i ddisgyblion. **Tystiolaeth o Effaith** • Mwy o ddisgyblion yn cael mynediad at ymyriadau priodol. • Gwell cydlynu rhwng aelodau'r tîm lles. • Hyder cynyddol staff wrth ddefnyddio strategaethau Thrive. • Cryfhau llais disgyblion mewn materion lles. • Ffocws cryfach ar les staff a chefnogaeth broffesiynol.

Ysgol Glan Morfa
Ffordd Lewis, Sblot, Caerdydd, CF24 5EB/Lewis Road, Splott, Cardiff, CF24 5EB
Ffôn/Tel: 02920 483663
Pennaeth/Headteacher: Meilir Tomos CPCP/NPQH
Dirprwy/Deputy: Miss Bethan Jenkins
www.ysgolglanmorfa.co.uk

BLAENORIAETHAU CYNLLUN DATBLYGU YSGOL 2026-27		
Blaenoriaeth	**Camau Allweddol**	**Cefnogaeth**
Sut gallwn gryfhau datblygiad ieithyddol disgyblion yn y Gymraeg a'r Saesneg **drwy gyflwyno cynllun ffoneg newydd effeithiol ac ailstrwythuro'r broses ysgrifennu i sicrhau cynnydd clir, cyson a safon uchel ar draws yr ysgol?** **1.**		
Rhesymeg	Rydym wedi dewis y ffocws hwn yn ein CGY gan fod datblygiad ieithyddol yn sylfaen i lwyddiant disgyblion ar draws pob maes dysgu. Trwy gyflwyno cynllun ffoneg newydd effeithiol, gallwn sicrhau bod disgyblion yn meithrin sgiliau darllen a sillafu cadarn yn gynnar, gan gynyddu hyder a rhuglder yn y Gymraeg a'r Saesneg. Ar yr un pryd, mae ailstrwythuro'r broses ysgrifennu yn canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau'n systematig, gan sicrhau cynnydd clir, cysondeb yn y dulliau addysgu, a safon uwch o waith ar draws yr ysgol gyfan. Mae'r ddau gam gweithredu hyn yn cyd-fynd i gryfhau ansawdd darpariaeth ac i wella deilliannau dysgwyr yn gynaliadwy.	
Cerrig Milltir Rhagfyr • Hyfforddiant Monster Phonics, Talk for Writing a Phatrymau Iaith Craidd wedi'i gwblhau gan staff. • Drilio dyddiol Cymraeg a gramadeg yn weithredol ym mhob dosbarth. • Carwsel darllen newydd wedi'i weithredu'n gyson ar draws yr ysgol. • Gwaelodlinau darllen, sillafu ac ysgrifennu wedi'u casglu. • Swyddogion Stori a Chriw Cymreictod yn weithredol.	**Cerrig Milltir Mawrth** • Tystiolaeth mewn llyfrau o broses ysgrifennu gyson ar draws yr ysgol. • Gwelliant mesuradwy mewn asesiadau darllen a sillafu canol blwyddyn. • Athrawon yn defnyddio Talk for Writing a Llais 21 yn gyson. • Mwyafrif y disgyblion yn dangos mwy o hyder llafar yn Gymraeg a Saesneg.	**Cerrig Milltir Gorffennaf** • Y rhan fwyaf o ddisgyblion wedi gwneud cynnydd clir mewn darllen, sillafu ac ysgrifennu. • Cysondeb amlwg mewn ansawdd ysgrifennu ar draws yr ysgol. • Gwell defnydd naturiol o'r Gymraeg ar draws yr ysgol. • Diwylliant darllen cryf wedi'i sefydlu.
2. Sut gallwn addasu ac ymestyn ein cynlluniau Mathemateg i ddatblygu sgiliau mathemategol elfennol disgyblion drwy gyflwyno dulliau addysgu cyson, gwirio cynnydd yn rheolaidd, gwella adnoddau a chynnig profiadau dysgu ystyrlon?		
Rhesymeg	Rydym wedi dewis y blaenoriaeth hon gan fod sgiliau mathemategol elfennol yn sylfaen i lwyddiant disgyblion ar draws y cwricwlwm ac mewn bywyd bob	

Ysgol Glan Morfa
Ffordd Lewis, Sblot, Caerdydd, CF24 5EB/Lewis Road, Splott, Cardiff, CF24 5EB
Ffôn/Tel: 02920 483663
Pennaeth/Headteacher: Meilir Tomos CPCP/NPQH
Dirprwy/Deputy: Miss Bethan Jenkins
www.ysgolglanmorfa.co.uk

<table>
<tr><td></td><td colspan="2">dydd. Mae tystiolaeth mewnol yn dangos bod anghysondeb mewn dulliau addysgu a diffyg dilyniant clir yn gallu effeithio ar gynnydd disgyblion.

Drwy addasu ac ymestyn ein cynlluniau Mathemateg, gallwn sicrhau bod dysgu'n adeiladu'n systematig ar wybodaeth flaenorol y disgyblion. Bydd cyflwyno dulliau addysgu cyson yn helpu i gryfhau hyder staff a disgyblion, gan sicrhau profiad dysgu clir a chydlynol ar draws yr ysgol.

Yn ogystal, mae gwirio cynnydd yn rheolaidd yn ein galluogi i adnabod bylchau yn gynnar a darparu cymorth priodol. Mae gwella adnoddau a chynnig profiadau dysgu ystyrlon yn sicrhau bod mathemateg yn berthnasol ac yn ymarferol, gan gynyddu ymgysylltiad a dealltwriaeth ddofn disgyblion.

Gyda'i gilydd, bydd y camau hyn yn arwain at safonau uwch, cynnydd mwy cyson, a dysgwyr mwy hyderus a medrus mewn mathemateg.</td></tr>
<tr><td>Cerrig Milltir Rhagfyr

• Magma Maths wedi'i gyflwyno a staff wedi derbyn hyfforddiant.
• Gwaelodlin mathemateg a system dracio ar waith.
• Adolygu cynllun mathemateg y clwstwr a chyflwyno'r 5 hyfedredd.
• Dwy dasg rhifedd draws-gwricwlaidd yn cael eu cynllunio bob hanner tymor.</td><td>Cerrig Milltir Mawrth

• Tystiolaeth mewn llyfrau o fwy o weithgareddau rhesymu a datrys problemau.
• Staff yn defnyddio data asesu i lywio addysgu.
• Gwell cysondeb rhwng dosbarthiadau mewn dulliau mathemateg.
• Disgyblion yn fwy hyderus wrth egluro eu meddwl mathemategol.</td><td>Cerrig Milltir Gorffennaf

• Data'n dangos cynnydd mewn sgiliau mathemategol craidd.
• Rhifedd ar draws y cwricwlwm wedi'i sefydlu.
• Disgyblion yn defnyddio mathemateg yn hyderus mewn cyd-destunau "bywyd go iawn".
• Cyffredinoldeb a dilyniant mathemateg clir ar draws yr ysgol.</td></tr>
<tr><td colspan="3">3. Sut gallwn ddatblygu profiadau celfyddydol mynegiannol disgyblion drwy ehangu cyfleoedd mewn drama, cerddoriaeth a dawns, a'u hymgorffori'n effeithiol ar draws y cwricwlwm i gryfhau sgiliau creadigol a chyfathrebu</td></tr>
<tr><td>Rhesymeg</td><td colspan="2">Rydym wedi dewis y blaenoriaeth hon gan fod y celfyddydau mynegiannol yn chwarae rhan allweddol wrth ddatblygu creadigrwydd, hyder a sgiliau cyfathrebu disgyblion. Mae tystiolaeth yn dangos nad yw cyfleoedd mewn drama, cerddoriaeth a dawns yn cael eu darparu'n gyson nac wedi'u hintegreiddio'n llawn ar draws y cwricwlwm, gan gyfyngu ar ddatblygiad llawn disgyblion yn y maes hwn.</td></tr>
</table>

	Drwy ehangu cyfleoedd mewn y celfyddydau mynegiannol, gallwn greu profiadau dysgu cyfoethog ac ystyrlon sy'n annog disgyblion i fynegi eu syniadau, eu hemosiynau a'u creadigrwydd mewn ffyrdd amrywiol. Mae hyn yn cefnogi datblygiad sgiliau llafar, cydweithio a hunanhyder. Yn ogystal, trwy ymgorffori'r celfyddydau'n effeithiol ar draws y cwricwlwm, gallwn wneud dysgu'n fwy deniadol ac integredig, gan gefnogi dealltwriaeth ddyfnach mewn pynciau eraill. Bydd hyn yn arwain at ddysgwyr mwy creadigol, hyderus a mynegiannol sy'n gallu cyfathrebu'n effeithiol mewn amrywiaeth o gyd-destunau.	
Cerrig Milltir Rhagfyr • Archwiliad o'r ddarpariaeth wedi'i gwblhau. • Cynllun dilyniant drama, cerddoriaeth a dawns wedi'i ddatblygu. • Gwasanaethau dosbarth, sesiynau canu ac olwyn dasg greadigol ar waith. • Cyfleoedd celfyddydol wedi'u cynllunio ym mhob dosbarth.	**Cerrig Milltir Mawrth** • Hyfforddiant staff wedi cynyddu hyder wrth addysgu'r celfyddydau. • Y celfyddydau yn cael eu hymgorffori'n fwriadus mewn prosiectau thema. • Disgyblion yn dangos mwy o hyder wrth berfformio a chyflwyno. • System asesu creadigol ar waith	**Cerrig Milltir Gorffennaf** • Pob disgybl wedi cael profiadau drama, cerddoriaeth a dawns rheolaidd. • Gwelliant amlwg mewn sgiliau creadigol a chyfathrebu. • Tystiolaeth o gynnydd mewn hyder a pherfformio. • Darpariaeth gelfyddydol gynaliadwy wedi'i gwreiddio.
4. Sut gallwn ddatblygu darpariaeth effeithiol ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol drwy sefydlu canolfan awtistiaeth lwyddiannus, addasu ein hamgylcheddau dysgu a chryfhau dealltwriaeth staff er mwyn sicrhau safonau uchel a chynnydd cyson i bob disgybl?		
Rhesymeg	Rydym wedi dewis y blaenoriaeth hon gan fod darparu ar gyfer disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn hanfodol er mwyn sicrhau tegwch, cynhwysiant a llwyddiant i bob dysgwr. Mae tystiolaeth o fewn yr ysgol yn dangos bod angen datblygu darpariaeth fwy strwythuredig a chyson, yn enwedig ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion cymhleth megis awtistiaeth. Bydd sefydlu canolfan awtistiaeth yn darparu cefnogaeth bwrpasol sy'n diwallu anghenion synhwyraidd, cymdeithasol ac emosiynol disgyblion, gan eu helpu i ymgysylltu'n fwy effeithiol â dysgu. Ar yr un pryd, mae addasu'r amgylcheddau dysgu ar draws yr ysgol yn sicrhau bod pob dosbarth yn fwy cynhwysol ac yn ymatebol i anghenion amrywiol disgyblion.	

<table>
<tr><td></td><td colspan="2">Mae cryfhau dealltwriaeth a sgiliau staff yn elfen allweddol, gan y bydd hyn yn arwain at arferion addysgu mwy effeithiol, defnyddio strategaethau priodol, a chefnogaeth gyson i ddisgyblion ADY ym mhob cyd-destun.

Gyda'i gilydd, bydd y camau hyn yn arwain at well safonau, cynnydd mwy cyson, a gwell llesiant i ddisgyblion ADY, gan sicrhau eu bod yn cael mynediad llawn at y cwricwlwm ac yn cyrraedd eu potensial.</td></tr>
<tr><td>Cerrig Milltir Rhagfyr

• Y Nyth wedi agor ac yn weithredol.
• Awdit AET o'r ysgol wedi'i chwblhau.
• Hyfforddiant AET cychwynnol wedi'i ddarparu i'r holl staff.
• Strategaethau cyfathrebu gweledol a Makaton wedi dechrau cael eu defnyddio.</td><td>Cerrig Milltir Mawrth

• Tystiolaeth o addasiadau ADY cyson mewn dosbarthiadau.
• Staff yn fwy hyderus wrth ddiwallu anghenion dysgwyr niwrowahanol.
• Banc adnoddau darpariaeth gyffredinol ar gael i staff.
• Cynnydd disgyblion Y Nyth yn cael ei olrhain yn effeithiol.</td><td>Cerrig Milltir Gorffennaf

• Y Nyth wedi'i sefydlu'n llwyddiannus fel rhan annatod o'r ysgol.
• Darpariaeth ADY gyson ac effeithiol ar draws yr ysgol.
• Disgyblion ADY yn dangos cynnydd mesuradwy a gwell ymgysylltiad.
• Makaton a systemau cyfathrebu wedi'u gwreiddio ar draws yr ysgol.</td></tr>
<tr><td colspan="3">5. I ba raddau mae datblygu'r amgylchedd dysgu mewnol ac allanol a chynyddu cyfleoedd dysgu awyr agored yn gwella annibyniaeth, gwydnwch a medrau disgyblion ar draws yr ysgol?</td></tr>
<tr><td>Rhesymeg</td><td colspan="2">Rydym wedi dewis y flaenoriaeth hon gan fod yr amgylchedd dysgu – yn fewnol ac allanol – yn cael effaith uniongyrchol ar y modd y mae disgyblion yn dysgu, ymgysylltu a datblygu eu medrau. Mae tystiolaeth yn dangos nad yw'r defnydd o'r gofodau presennol, yn enwedig yr awyr agored, wedi'i ddatblygu'n llawn i gefnogi dysgu annibynnol a phrofiadau ystyrlon.

Drwy ddatblygu'r amgylcheddau hyn a chynyddu cyfleoedd dysgu awyr agored, gallwn ddarparu profiadau mwy ymarferol, dilys ac ysgogol sy'n annog disgyblion i archwilio, datrys problemau a gwneud penderfyniadau. Mae hyn yn cefnogi datblygiad annibyniaeth a gwydnwch, gan alluogi disgyblion i gymryd risgiau cyfrifol a dyfalbarhau wrth wynebu heriau.

Yn ogystal, mae amgylcheddau dysgu o ansawdd uchel yn cefnogi ystod eang o fedrau trawsgwricwlaidd, gan wneud dysgu'n fwy perthnasol ac</td></tr>
</table>

Ysgol Glan Morfa
Ffordd Lewis, Sblot, Caerdydd, CF24 5EB/Lewis Road, Splott, Cardiff, CF24 5EB
Ffôn/Tel: 02920 483663
Pennaeth/Headteacher: Meilir Tomos CPCP/NPQH
Dirprwy/Deputy: Miss Bethan Jenkins
www.ysgolglanmorfa.co.uk

	ystyrlon ar draws yr ysgol. O ganlyniad, bydd disgyblion yn datblygu'n ddysgwyr mwy mentrus, hyderus ac effeithiol.	
Cerrig Milltir Rhagfyr • Ardaloedd allanol dosbarthiadau wedi'u datblygu. • Adnoddau Frobelaidd ar waith hyd at Flwyddyn 2. • Staff wedi derbyn hyfforddiant ar rôl yr "Oedolyn sy'n Galluogi". • Elfennau awyr agored yn ymddangos mewn cynllunio wythnosol.	**Cerrig Milltir Mawrth** • Sesiynau dysgu awyr agored rheolaidd ar draws yr ysgol. • Tystiolaeth o ddatblygiad iaith a llafaredd yn yr ardaloedd Frobelaidd. • Oedolion yn defnyddio strategaethau galluogi yn gyson. • Uwch lefelau o annibyniaeth ymysg disgyblion.	**Cerrig Milltir Gorffennaf** • Dysgu awyr agored wedi'i wreiddio yn y cwricwlwm. • Disgyblion yn dangos mwy o wydnwch ac annibyniaeth. • Ardaloedd dysgu mewnol ac allanol yn cael eu defnyddio'n effeithiol i gefnogi dysgu. • Tystiolaeth gref o ddatblygiad medrau trawsgwricwlaidd drwy ddysgu awyr agored.